**Pwyllgor Diwylliant - CC-4-02(p.4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 6 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 10.00am -1.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd Goffa Pontyberem |

# CYFLWYNIAD

# MENTRAU IAITH CYMRU

# I BWYLLGOR DIWYLLIANT Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

**Tachwedd 2001**

# CYFLWYNIAD MENTRAU IAITH CYMRU I BWYLLGOR

# DIWYLLIANT Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

## 1. Cefndir

### 1.1 *Beth yw Menter Iaith?*

Asiantaeth gymunedol yw menter iaith gyda'r nod o ehangu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol a sefydliadol.

Mewn termau theoretig gellid disgrifio gwaith y mentrau fel ymgais i ddatblygu model o gynllunio ieithyddol cymunedol mewn ardaloedd daearyddol penodedig sydd fel arfer yn cyd-redeg â ffiniau awdurdodau lleol.

Gan nad oes modd ysgaru iaith oddi wrth y bobl sydd yn ei siarad neu ei dysgu gellid hefyd ystyried y mentrau fel asiantaethau ymyrraethol sydd yn cyfrannu tuag at adfywiad cymunedol.

Yn y bôn y mae'r mentrau wedi deillio o awydd pobl leol i ddiogelu dyfodol yr iaith mewn cymunedau lle y siaredir y Gymraeg fel prif iaith ac i ymestyn a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhwydweithiau cymunedol y tu allan i'r ardaloedd hyn.Y mae'r mentrau o ganlyniad wedi eu gwreiddio'n ddwfn yng ngwead cymdeithasol y cymunedau hynny y maent yn eu gwasanaethu ac felly'n atebol iddynt o safbwynt gwireddu dyheadau a chyflawni amcanion.

### 1.2 *Ers pryd y mae Mentrau Iaith yn bodoli?*

Sefydlwyd y fenter iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth ym 1991 fel cynllun peilot tair blynedd a ariannwyd gan y Swyddfa Gymreig. Un o amcanion sylfaenol y fenter bryd hynny oedd datblygu patrwm o gynllunio ieithyddol cymunedol y gellid ei drosglwyddo i ardaloedd eraill yng Nghymru.

Yn dilyn llwyddiant cynnar Menter Cwm Gwendraeth sefydlwyd menter iaith yn Nhaf Elái ym 1992 ac un arall i weithredu yng nghymoedd Aman a Thawe ym 1994.

O ganlyniad i Ddeddf yr Iaith (1993) trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am weinyddu grantiau i hybu'r iaith Gymraeg i Fwrdd yr Iaith, ac ers 1994 y Bwrdd fu'n gyfrifol am ariannu'r mentrau.

Gyda chefnogaeth grant craidd gan y Bwrdd Iaith a chyfraniadau ariannol gan rai awdurdodau lleol, sefydlwyd 16 menter ychwanegol rhwng 1994 a 2000.

Erbyn heddiw y mae 23 o fentrau iaith mewn bodolaeth yn gwasanaethu bron pob cwr o Gymru.

### 1.3 *Dengys Map 1 leoliad y mentrau iaith presennol:*

## **1.4** *Nod ac Amcanion y Mentrau Iaith*

**Nod:**

Nod y mentrau iaith yw hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol a sefydliadol.

**Amcanion:**

Y mae prif amcanion y mentrau iaith yn cynnwys:

* codi hyder a sgiliau iaith siaradwyr Cymraeg;

* hybu a hwyluso gweithgareddau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg;

* darparu cyfleoedd i blant a phobl ifainc gwrdd a chymdeithasu yn y Gymraeg;

* annog y di-Gymraeg a mewnfudwyr i ddysgu'r iaith;

* hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes;

* cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan fudiadau gwirfoddol;

* dylanwadu ar bolisïau cyrff cyhoeddus;

* newid agweddau tuag at yr iaith a'r defnydd a wneir ohoni;

* codi proffil a delwedd gyhoeddus y Gymraeg;

* gweithredu fel canolfan wybodaeth ac adnoddau;

* cyfrannu tuag at adfywiad cymunedau lleol.

## **1.5** *Ffynonellau Nawdd*

Fel y nodwyd uchod y prif gyllidwr yw Bwrdd yr Iaith, ond ceir nawdd hefyd gan:

Awdurdodau Lleol

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Cronfeydd Strwythurol Ewrop

Cronfa Cyfleoedd Newydd (NOF)

ELWa

Plant Mewn Angen

**1.6** *Beth mae'r Mentrau yn ei gyflawni?*

Yn ogystal â hyrwyddo prosiectau sydd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y defnydd o'r Gymraeg y mae'r mentrau hefyd yn ceisio:

* normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd
* newid ymddygiad ac agweddau tuag at y Gymraeg drwy ymgyrchoedd marchnata grymus.
* sicrhau cyfranogiad eang i'r broses o hyrwyddo'r iaith drwy ymbweru unigolion a chymunedau i gymryd cyfrifoldeb am ei diogelu.
* annog perchnogaeth leol ar gynlluniau i adfywio'r iaith a'r gymuned.
* dylanwadu ar ddewis iaith unigolion, mudiadau a chymdeithasau lleol.
* datblygu cynhwysedd personol a chymunedol.
* sefydlu a meithrin partneriaethau gyda mudiadau a chyrff eraill.
* hyrwyddo dinasyddiaeth wedi ei seilio ar werthoedd ieithyddol a diwylliannol.
* ysgogi'r broses o drafod a chymryd rhan.
* codi proffil yr iaith yn lleol.
* datblygu gwybodaeth a deallusrwydd unigolion a chymunedau.
* ymrymuso pobl i wneud defnydd o'r Gymraeg yn eu bywyd pob dydd.

**1.7** *Ydy'r Mentrau wedi llwyddo yn eu hamcanion?*

Ym mis Ionawr eleni cyhoeddwyd adroddiad gan Gwmni Iaith Cyf a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith ar waith y mentrau.

Daeth yr adroddiad - a oedd yn un cefnogol iawn - i'r casgliad bod y mentrau iaith wedi dylanwadu'n

gadarnhaol ar ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg, ac wedi datblygu corff o arferion da dros y blynyddoedd. Rhestrwyd enghreifftiau o'r arferion da hyn fel a ganlyn:

* adnabod ac ymateb yn briodol i anghenion cynllunio iaith lleol.

* cynllunio bwriadus ac effeithiol.

* rhwydweithio a chydweithio â phartneriaid perthnasol.

* gosod anghenion ieithyddol ar agenda cynllunio strategol sirol.

* cyfrannu at ddatblygu cymunedol.

* meithrin perchnogaeth leol ar gynlluniau.

* cynyddu cyfleoedd a defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

* codi statws a phroffil yr iaith yn lleol.

* codi hyder a hyfedredd pobl leol i wneud defnydd o'r iaith.

Wrth gyfeirio at bwysigrwydd cynllunio ieithyddol cymunedol i barhad yr iaith yng Nghymru y mae'r adroddiad yn cydnabod arbenigedd y mentrau yn y maes hwn:

> *'Maes cymharol newydd i Gymru yw cynllunio iaith yn y gymuned. Y mentrau iaith yw awduron gweithredol y maes hwnnw. Nid oes model arall tebyg wedi ei ddatblygu. Y mentrau iaith sydd, ac a fydd, yn creu a datblygu corff o arfer cymeradwy i'r maes i'r dyfodol.'*

Serch hynny y mae'r arolwg yn tanlinellu'r ffaith nad yw'r lefel presennol o weithgarwch cymunedol yn ddigon i adfer y Gymraeg:

> *'Ni chredwn fod gweithgaredd y mentrau yn ddigonol ar hyn o bryd o ran maint ac ansawdd i gyflawni'r newid sylweddol a pharhaol mewn patrymau defnydd iaith lleol sydd ei angen os yw'r Gymraeg i oroesi fel iaith gymunedol fyw. Rhaid wrth fuddsoddiad sylweddol uwch yn y cysyniad o fentrau iaith os ydynt i lwyddo yn eu hamcanion.'*

Mewn arolwg arall o'r mentrau ym 1997 gan yr Athro Colin Williams a Dr Jeremy Evas o Brifysgol Caerdydd cyfeiriwyd eto at y potensial sydd gan y mentrau i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chodi proffil yr iaith yn lleol.

Noda'r 'Cynllun Ymchwil Cymunedol' ddau brif reswm dros gefnogi a hyrwyddo sefydlu mentrau iaith:

> * Mewn sefyllfaoedd lle y ceir potensial ieithyddol cryf ond rhwydweithiau sosio-ieithyddol gwan, maent yn cynnig hwb sosio-seicolegol cadarnhaol i gynnal y Gymraeg mewn cyd-

destunau a fyddai, fel arall, yn fframgenteiddio.

* Yn rhinwedd eu statws fel cyrff cynllunio ieithyddol lleol, gallent weithredu fel ffocws ar gyfer creu fforymau i gynnal partneriaethau rhwng y llywodraeth ganolog ….., Bwrdd yr Iaith Gymraeg, llywodraeth leol, cyrff cyhoeddus statudol, ymddiriedolaethau iechyd ac amrywiaeth o gyrff gwirfoddol a chwmnïau preifat, er mwyn ehangu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Er mai cysyniad cymharol newydd yw'r mentrau daeth yr arolwg i'r casgliad bod ganddynt gyfraniad pwysig i'w wneud o safbwynt galluogi'r iaith i fod yn hunan-gynhaliol:

*'Mae hi ychydig yn rhy gynnar i fwrw amcan ar effaith lawn cyfraniad y Mentrau Iaith i adfer y Gymraeg yn eu hardaloedd, ond ni ddylid tanbrisio'u potensial. Hyd yn hyn, dyma'r ffordd mwyaf effeithiol a gafwyd o weithredu a chynnal strategaeth adfwyiol ar y lefel leol. Mae'r Mentrau yn debyg o fod yn offerynnau allweddol i sefydlogi ffragmenteiddio ieithyddol, yn arbennig mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.'*

## **1.8** *Pa weithgareddau y mae'r mentrau yn eu hyrwyddo?*

Y mae'r mentrau yn llythrennol yn hwyluso cannoedd o wahanol brosiectau ymyrraethol yn flynyddol gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol.

Byddai'n gwbl anymarferol i restru bob un ohonynt yma, serch hynny gellid crynhoi'r prif feysydd gweithgaredd fel a ganlyn:

* Darparu gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifainc.

* Ehangu cynlluniau gofal plant.

* Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddiad iaith yn y cartref.

* Amlhau cyfleoedd i bobl o bob oed gwrdd a chymdeithasu yn y Gymraeg.

* Hybu'r Gymraeg ymhlith busnesau.

* Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan fudiadau gwirfoddol.

* Hyrwyddo a darparu hyfforddiant i arweinwyr a gwirfoddolwyr yn y gymuned.

* Datblygu hyder a sgiliau'r gweithlu drwy ddarparu hyfforddiant mewn mannau gwaith.

* Darparu cyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg.

* Ymestyn y defnydd o offer cyfieithu ar-y-pryd.

* Dosbarthu 'Pecynnau Croeso' i fewnfudwyr.

* Comisiynu prosiectau ymchwil.

* Hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata i ddylanwadu ar ddewisiadau personol o safbwynt defnydd iaith.

* Dylanwadu ar bolisïau cyrff cyhoeddus ar faterion sydd yn effeithio ar gyflwr yr iaith.

* Cydweithio gydag asiantaethau datblygu cymunedol i wella ansawdd bywyd.

* Hyrwyddo addysg ddwyieithog.

* Sicrhau cynaladwyedd papurau bro a chynyddu'r diddordeb mewn darllen yn y Gymraeg.

* Asesu anghenion cymunedol drwy gyfres o arolygon annibynnol.

* Sefydlu strwythurau gweithredu lleol er mwyn cynyddu cyfranogaeth gymunedol.

### **1.9** *Y Prif Egwyddorion Strategol?*

Nid yw’r iaith Gymraeg yn bodoli mewn gwagle. Y mae popeth sydd yn effeithio ar y gymuned hefyd yn effeithio ar yr iaith yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Y mae hyn yn golygu bod y mentrau o’r cychwyn wedi gorfod mabwysiadu dulliau holistaidd tuag at gynllunio ieithyddol cymunedol sydd yn ystyried ffactorau sosio-economaidd yn ogystal â ffactorau ieithyddol a diwylliannol.

Afraid dweud nad yw’r mentrau yn meddu ar rym gwleidyddol neu statudol i fedru datblygu neu hyrwyddo polisïau mewn meysydd megis datblygu economaidd, iechyd a gofal cymdeithasol, tai a chynllunio neu addysg a hyfforddiant, ond yr hyn gall y mentrau wneud drwy feithrin partneriaethau gyda chyrff cyhoeddus a statudol yw ceisio dylanwadu ar bolisïau a chodi ymwybyddiaeth ymhlith ffurfwyr polisi o effaith eu penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg

Y mae hyn yn gofyn am gryn sensitifrwydd gwleidyddol a gwybodaeth eang am feysydd polisi gwahanol. Fodd bynnag y mae hi’n swyddogaeth bwysig i’r mentrau ymgymryd â hi er mwyn ennill eu plwyf fel cyrff adfywio ieithyddol a chymunedol effeithiol ac uchel eu parch.

Dengys tystiolaeth annibynnol ac ymarferol bod y mentrau i raddau helaeth iawn wedi llwyddo i gyflawni hyn dros y blynyddoedd diwethaf.

## **2. Y Prif Heriau sy’n Wynebu’r Gymraeg Heddiw**

**2.1** Y consensws cyffredinol ymhlith hyrwyddwyr iaith yw bod yr 20-30 mlynedd nesaf yn mynd

i fod yn rhai tyngedfennol i ddyfodol y Gymraeg. Oni bai y gwelir newidiadau polisi sylfaenol mewn rhai meysydd penodol a buddsoddiad ariannol sylweddol mewn cynlluniau i'w hadfer yna mi fydd hi'n peidio â bod yn iaith hyfyw yn y rhan helaethaf o'r cymunedau hynny sydd yn draddodiadol wedi ei chynnal fel prif iaith y mwyafrif.

**2.2** Bu nifer fawr o resymau paham y gwelwyd lleihad cyson yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru dros y ganrif neu ddwy ddiwethaf Y mae nifer o'r ffactorau sydd wedi arwain at ddirywiad iaith wedi bod yn rhai hanesyddol, gwleidyddol, economaidd, demograffaidd, ac yn fwy diweddar technolegol.

Ond nid oes unrhyw adeg ers yr Ail Ryfel Byd pan y gwelwyd cymaint o fygythiad i barhad y Gymraeg a chymunedau traddodiadol dwyieithog nag sydd yn bodoli heddiw.

**2.3** Y mae cyfuniad cydamserol o ffactorau andwyol wedi ysigo seiliau cadarnleoedd y Gymraeg i'r graddau fel bod angen cynlluniau gwirioneddol radical a phell-gyrhaeddol i'w hatgyfnerthu, a hynny fel mater o frys.

**2.4** Ymhlith y ffactorau diweddar sydd wedi milwrio yn erbyn y Gymraeg y mae:

* Mewnfudo/Allfudo.

* Diffyg Trosglwyddiad Iaith yn y Cartref

* Dirwasgiad economaidd

* Dylanwad y cyfryngau torfol Eingl-Americanaidd.

* Twf technoleg fodern

* Diffyg dilyniant o safbwynt addysg Gymraeg o'r sector cynradd i'r uwchradd, ac o'r uwchradd i addysg bellach neu uwch.

* Newid mewn patrymau teithio-i-waith.

* Datblygiad y Saesneg fel *lingua franca* mewn sefyllfaoedd ffurfiol a chymdeithasol.

* Datblygiadau ym maes trafnidiaeth a chludiant. .

* Dadfeiliad rhwydweithiau a pheuoedd traddodiadol.

* Dadfeiliad cymdeithasol a datblygiad dull o fyw mwy atomaidd

* Twf y cysyniad o gymuned 'global.' ('global village')

* Diffyg hyder cynhenid yn y defnydd o’r Gymraeg a chanfyddiad negyddol o’i gwerth.

* Diffyg statws i’r Gymraeg yn y sector preifat a’r sector gwirfoddol.

**2.5** Ar y llaw arall y mae rhai ardaloedd y tu allan i'r cymunedau hynny lle y mae'r Gymraeg yn iaith gyffredin ei defnydd yn dangos arwyddion o dwf. Dyma'r ardaloedd wrth gwrs sydd wedi gweld datblygiadau cyffrous yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn addysg cyfrwng Cymraeg

**2.6** Er mwyn gosod yr argymhellion sy’n dilyn mewn cyd-destun, y mae’n werth ymhelaethu’n fyr ar ambell un o’r pwyntiau uchod a cheisio deall paham y mae angen newidiadau mewn polisi er mwyn gwyrdroi’r sefyllfa argyfyngus bresennol.

**2.7** *Mewnfudo/Allfudo*

i. **Mewnfudo**

Y mae llawer wedi ei ddweud a’i ysgrifennu am bwnc mewnfudo dros y misoedd diwethaf a gwn fod dadansoddiad manwl o’r sefyllfa ynghyd ag argymhellion penodol wedi eu cyflwyno i chi fel Pwyllgor gan nifer o unigolion a mudiadau

Digon yw cydnabod felly, er bod symudoledd poblogaeth yn ffenomen Ewropeaidd, bod newidiadau ar y raddfa ddemograffaidd sy’n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd yn uniongyrchol gyfrifol am danseilio sefydlogrwydd ein cymunedau traddodiadol dwyieithog a bod angen mesurau cynllunio cadarn i sicrhau eu cynaladwyedd i’r dyfodol.

Mewn dwy astudiaeth ddiweddar yn Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn gwelwyd bod cyfatebiaeth amlwg rhwng canrannau mewnfudwyr a chanrannau siaradwyr uniaith Saesneg. Yr uchaf yw’r canrannau y lleiaf o ddefnydd o’r Gymraeg a welir mewn peuoedd cymdeithasol megis y dafarn, siop y pentref, y Swyddfa Bost, yr ysgol, yr eglwys, y feddygfa, cymdeithasau lleol a hyd yn oed y cartref.

Y mae’n amlwg ddigon yn ôl yr ymchwil hon nad yw’r gymuned Gymraeg gynhenid yn ddigon grymus i gymhathu ton ar ôl ton o fewnfudwyr, ac mai encilio’n araf y mae’r Gymraeg o’r llwyfan cymdeithasol.

Yr hyn sydd yn digwydd mewn sefyllfa o’r fath yw bod yr iaith Saesneg yn datblygu’n fwyfwy fel *lingua franca* mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ffurfiol ac anffurfiol.

Y mae Josuah Fishman yn ei lyfr clasurol *Reversing Language Shift* yn dadlau bod dadleoliad demograffaidd yn cyflymu’r broses o shifft iaith:

> *‘There is obviously a physical basis to all of life, whether individual, social or cultural. When this physical basis is dislocated, the continuity of life itself becomes threatened. At the ethnocultural level one of the major physical threats to intergenerational language-in-culture continuity is population transfer and voluntary or involuntary out-migration.’*

Rhaid cofio mai nid rhywbeth sydd yn unigryw i Gymru yw shifft poblogaeth Y mae gwledydd fel Denmarc, y Ffindir a Sweden ac ardaloedd yn Lloegr megis Ardal y Llynnoedd, Exmoor ac Ynysoedd y Sianel eisoes wedi deddfu er mwyn gwarchod natur a chymeriad cymunedau lleol.

Y mae'r problemau sy'n wynebu Ardal y Llynnoedd ac Exmoor yn Nyfnaint yn debyg iawn i'r problemau sy'n wynebu nifer o ardaloedd yng Nghymru – y mae eu harddwch yn denu twristiaid sydd yn ei dro yn arwain at fewnfudo. Canlyniad hyn yw cynnydd mewn prisiau tai, sydd, o'i gyplysu â diweithdra a dirywiad economaidd yn arwain at lefelau uchel o allfudo, yn enwedig ymhlith yr ifainc. Yr unig wahaniaeth wrth gwrs yw bod gennym ni yng Nghymru gymhlethdod ychwanegol, sef iaith i'w gwarchod fu'n rhan o'n hunaniaeth fel cenedl ers canrifoedd maith.

Y mae Cyngor Sir Cumbria yn ddigon clir yngl•n â'u polisïau tai gogyfer â diogelu cymunedau unigryw Ardal y Llynnoedd, sef darparu tai yn ôl anghenion lleol ac am bris sydd yn fforddadwy i bobl leol.

Y mae tai haf hefyd yn cael effaith niweidiol ar gymunedau gwledig. Dros y gaeaf drwy bod y mwyafrif o'r tai hyn yn wag y mae'r effaith ar fusnesau a gwasanaethau lleol yn andwyol. Maent hefyd yn lleihau'n sylweddol y stoc dai sydd ar gael i'w prynu, ac oherwydd bod prisiau'n cael eu chwyddo, eu gwneud y tu hwnt i gyrraedd pobl leol.

**ii) Allfudo**

Un o'r prif resymau dros allfudo a mewnfudo yw'r anghydbwysedd economaidd sy'n bodoli rhwng ardaloedd difreintiedig yng Nghymru ac ardaloedd mwy ffyniannus yn Lloegr.

Y mae 75% o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ardal Amcan 1. Y mae lefelau GDP Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 72% o'r cyfartaledd ar draws y Deyrnas Gyfunol. Y mae cyfartaledd Cymru gyfan 17% yn is na chyfartaledd y D.G. Y mae diweithdra ymhlith pobl ifainc dan 25 yn 10-15% uwch na chyfartaledd y D.G.

Y mae'r dadfeiliad economaidd dros y 30 mlynedd ddiwethaf wedi amlygu ein gor-ddibyniaeth ar ddiwydiannau trwm megis glo, haearn a llechi, ac yn ddiweddar y diwydiant amaeth, sydd wedi cloffi o un argyfwng i'r llall dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn draddodiadol bu’r sectorau hyn yn fodd i gadw pobl mewn swyddi cymharol sefydlog a sicrhau gyrfa i genedlaethau o weithwyr. Roedd hyn yn caniatáu i bobl ifainc yn arbennig aros yn eu broydd i fagu teuluoedd ac i ddatblygu i fod yn arweinwyr eu cymuned.

Heddiw, oherwydd diflaniad y diwydiannau trwm a’r argyfwng sy’n wynebu’r diwydiant amaeth – a fu’n asgwrn cefn i gymunedau Cymraeg erioed – y mae pobl ifainc yn mudo yn eu heidiau i Gaerdydd a thu hwnt i chwilio am waith.

Dengys adroddiad diweddar y gallai Ynys Môn ddisgwyl colli tua degfed rhan o'i phoblogaeth erbyn y flwyddyn 2016 ac mae pobl 50 oed a iau sydd yn fwyaf tebygol o symud – ffigwr syfrdanol, sydd yn tanlinellu breguster y sefyllfa yng nghefngwlad Cymru heddiw.

## **2.8** *Trosglwyddiad Iaith yn y Cartref*

*‘Without intergenerational mother tongue transmission (or the transmission of a written or spoken second language, if that should be the societal goal) no language maintenance is possible. That which is not transmitted cannot be maintained,’* meddai Fishman wrth danlinellu pa mor gwbl hanfodol yw trosglwyddiad iaith yn y cartref i ddyfodol y Gymraeg neu i unrhyw iaith arall mewn gwirionedd.

Dengys ymchwil ddiweddar gan yr Athro Colin Baker o Brifysgol Bangor mewn astudiaeth a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iaith bod lleihad o 50% yn lefel trosglwyddiad iaith yn y cartref ar draws Cymru, yn bennaf mewn priodasau cymysg eu hiaith.

Yr hyn y mae’r ffigurau’n dangos yw:

- Mewn teuluoedd lle y mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg y mae **92%** o siawns y bydd y plentyn hefyd yn siarad Cymraeg.
- Os mai'r tad yn unig sy'n siarad Cymraeg y mae **48%** o siawns y bydd y plentyn yn siarad Cymraeg.
- Os yw'r fam yn siarad Cymraeg yna mae **53%** o siawns y byddai'r plentyn yn siarad Cymraeg

Fel y mae Fishman unwaith eto yn ategu y mae’n rhaid rhoi blaenoriaeth i’r ymdrechion hynny sydd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddiad iaith rhwng y cenedlaethau:

> *‘The road to societal death is paved by language activity that is not focused on intergenerational continuity, i.e. that is diverted into efforts that do not involve and influence the socialization behaviors of families of child-bearing age.’* (Reversing Language Shift)

## **2.9** *Dylanwad y Cyfryngau Torfol Eingl-Americanaidd a Thwf Technoleg Fodern*

Ers y 50au a’r 60au y mae’r radio, teledu, sinemâu, hi-fi’s a fideos wedi sicrhau bod y diwylliant Eingl-Americanaidd bellach yn rhan annatod o fywyd bob yr un ohonom. Drwy gyfrwng cerddoriaeth pop, ffilmiau, cylchgronau, CDs, cyfrifiaduron a phapurau dyddiol y mae’n anodd osgoi dylanwad y diwylliant grymus ac ymledol hwn.

Er bod Radio Cymru, rhai gorsafoedd radio lleol ac S4C yn gwneud cyfraniad pwysig o safbwynt cyflwyno iaith a diwylliant Cymru i wrandawyr a gwylwyr - yn arbennig yr ifanc - y mae'n anodd iawn i'r Gymraeg gystadlu yn yr hinsawdd dechnolegol bresennol.

Pan y sefydlwyd S4C bron i ugain mlynedd yn ôl, dewis o bedair sianel oedd ar gael i bobl Cymru – erbyn heddiw gyda dyfodiad teledu lloeren a chêbl – y mae dros gant o sianeli ar gael i gystadlu ag S4C am wylwyr.

Y mae t•f gorsafoedd radio annibynnol hefyd yn peri cystadleuaeth ffyrnig i wrandawyr selog Radio Cymru.

O safbwynt datblygiad technoleg fodern y mae prinder meddalwedd Cymraeg a rhaglenni rhyngweithiol deniadol i blant a phobl ifainc yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei heithrio o'r maes allweddol hwn.

Y mae arafwch datblygu rhwydwaith band llydan ar draws Cymru hefyd yn llesteirio cyfleoedd i fusnesau fanteisio ar botensial y dechnoleg newydd yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.

Y mae rhwyddineb cyfathrebu a chael gwybodaeth i'r funud am yr hyn sy'n digwydd ar draws y byd drwy gyfrwng e-bost, ffoniau symudol, y rhyngrwyd, y teledu, cysylltiadau fideo, ffacs etc yn golygu bod y cysyniad o 'bentref byd-eang' yn atgyfnerthu safle a grym y diwylliant Eingl-Americanaidd gartref ac ar lwyfan byd-eang.

> *'The destruction of languages is an abstraction which is concretely mirrored in the concomitant destruction of intimacy, family and community, via national and international involvements and intrusions, the destruction of local life by mass-market hype and fad, of the weak by the strong, of the unique and traditional by the uniformizing, purportedly 'stylish' and purposely ephemeral.'* (Josuah Fishman in 'Reversing Language Shift')

## **2.10** *Dadfeiliad Economaidd a Chymunedol*

Fel y nodwyd uchod y dirwasgiad economaidd sydd yn bennaf gyfrifol am fewnfudo ac allfudo yng Nghymru. Barnwyd bod dros filiwn o bobl wedi symud i mewn ac allan o Gymru yn ystod yr 80au, sydd yn ffigwr aruthrol pe cofir mai dim ond poblogaeth o ryw 3 miliwn sydd gan Gymru.

Y mae gan y dirwasgiad economaidd fodd bynnag sgîl-effeithiau cymdeithasol eraill sydd yr un mor niweidiol i'r iaith Gymraeg. Y mae ardaloedd sydd yn dioddef cynni economaidd yn cael eu nodweddu gan:

* ddiweithdra uchel

* lefelau incwm isel

* tostrwydd ac anabledd parhaol

* cynnydd yn lefel y digartref

* allfudo uchel gan yr ifainc

* poblogaeth h•n

* erydiad rhwydweithiau cynhaliol traddodiadol.

Mewn cymunedau dirwasgiedig y mae meddygon teulu a gweithwyr cymdeithasol hefyd yn nodi cynnydd mewn iselder ysbryd, camddefnydd alcohol a chyffuriau, hunan-laddiad, tor-cyfraith, trais yn y cartref, tor-priodas a chamdrin plant.

Mewn astudiaeth ddiweddar a wnaed yng Ngwm Gwendraeth, sydd yn ardal ôl-ddiwydiannol gyda lefelau uchel o ddiweithdra a phroblemau cymdeithasol dybryd, yn ôl tystiolaeth meddygon teulu dim ond 25% o’r achosion y maent yn delio â hwy sydd yn rhai clinigol. Y mae’r mwyafrif o’r gweddill yn gysylltiedig ag ochr feddal salwch meddwl.

> *'Language erosion and ill health have their roots in failing community structures. Language development and health promotion need vibrant communities to succeed.'* ( Dr A W Griffiths yn 'Alliance', 1998)

Y mae amgylchfyd o ddirywiad sosio-economaidd a ieithyddol yn arwain at ddiffyg hunan hyder, hunan barch ac erydiad graddol mewn sgiliau bywyd a phatrymau cymdeithasu traddodiadol. Y mae ceisio hyrwyddo cynlluniau cadarnhaol o blaid y Gymraeg yn dasg eithriadol o anodd mewn amgylchiadau o'r fath, sydd yn golygu bod rhaid i unrhyw strategaeth adfywio iaith gyd-gerdded â strategaeth ddatblygu economaidd a chymunedol.

Fel y dywed Adam Price yn 'Diversity Dividend':

> *'Language vitality and economic viability are two sides of the same coin. No language can survive for long without a sound economic base. And cultural-linguistic diversity can be an important source of innovation and local dynamism.'*

Yn sgîl y dirywiad economaidd a chymdeithasol diweddar gwelwyd dadfeiliad araf mewn nifer o rwydweithiau a pheuoedd traddodiadol a rodd gynhaliaeth i'r Gymraeg dros y canrifoedd, er enghraifft yr aelwyd, capel, gweithle (pyllau glo, chwareli, ffermydd), yr ysgol bentref, y siop a'r dafarn. Nid oes amheuaeth bod y trawsnewidiadau hyn wedi gwanhau hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymdeithasol.

Y mae'r ffaith hefyd bod natur cymuned wedi newid dros y degawdau diwethaf wrth i bobl gymdeithasu'n llai a dilyn bywyd mwy atomaidd. Mae hyn yn golygu bod llai o gyfleoedd i gyfarfod a chyfathrebu drwy'r Gymraeg nag oedd flynyddoedd yn ôl ac o'r herwydd y mae'r nifer o beuoedd a rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg wedi lleihau a ffragmenteiddio dros y blynyddoedd diwethaf.

## **2.11** *Datblygiadau ym Maes Trafnidiaeth*

Y mae datblygiadau ym maes trafnidiaeth a chludiant yn allweddol i ffyniant economaidd Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol sydd yn bell o goridorau'r M4 ac A55.

Serch hynny, o safbwynt y Gymraeg y mae'r datblygiadau hyn yn gymysg eu heffeithiau, gan fod hygyrchedd yn cynyddu treiddiad y Saesneg i'r ardaloedd hyn drwy agor y farchnad i brynwyr oddi allan, caniatáu i gymudwyr deithio o gefngwlad i weithio mewn dinasoedd a phobl leol i deithio o'u pentrefi lleol i'r dref agosaf.

Gan fod dylanwad diwylliannol a chymdeithasol bywyd dinesig a threfol yn un Saesneg ar y cyfan y mae hyn hefyd yn cael effaith ar feddylfryd pobl, yn arbennig yr ifainc, gan eu harwain yn aml i gwestiynu ac ymwrthod weithiau â rhai o'u gwerthoedd traddodiadol, gan gynnwys siarad iaith y mae'r diwylliant dinesig o'i hanfod yn ei ystyried yn anffasiynol ac felly'n amherthnasol.

Er bod gwella ffyrdd wedi ehangu'r farchnad swyddi i lawer iawn o bobl, y mae'r newidiadau mewn patrymau teithio-i-waith heb os wedi cael effaith niweidiol ar rywiogrwydd y Gymraeg ac agweddau tuag ati.

## **2.12** *Diffyg Hyder a Diffyg Statws*

Y mae diffyg hyder yn y defnydd o'r Gymraeg yn nodwedd amlwg o lawer o ardaloedd traddodiadol Gymraeg. Y mae diffyg hyder yn aml yn gallu arwain at ganfyddiadau negyddol yngl•n â gwerth y Gymraeg ac agweddau gwrthwynebus tuag ati.

Y mae i'r diffyg hyder wreiddiau hanesyddol sydd yn ymestyn yn ôl mor bell â chyfnod Harri'r Wythfed pan y ddiddymwyd y Gymraeg yn swyddogol o fywyd cyhoeddus Cymru gan Ddeddf Uno 1536.

Ers hynny profodd nifer o ddigwyddiadau hanesyddol eraill - gan gynnwys cyhoeddi'r Llyfrau Gleision yn 1847 a phasio Deddf Addysg yn 1870 a orfododd y Saesneg i fod yn iaith swyddogol yn ein hysgolion - yn ergydion niweidiol i'r iaith Gymraeg.

Y mae nifer o haneswyr o'r farn erbyn hyn bod effaith seicolegol Brad y Llyfrau Gleision - gyda'i gondemniad damniol o arferion cymdeithasol y Cymry a'u diffyg addysg - i'w deimlo hyd heddiw. Yr oedd y ffaith bod cymaint o bwyslais yn yr adroddiad ar bwysigrwydd yr iaith Saesneg fel unig iaith dod ymlaen yn y byd a'i ymosodiad dilornus ar y defnydd o'r Gymraeg yn rhwym o godi amheuon dwfn ym meddyliau cenedlaethau o siaradwyr Cymraeg yngl•n â statws a gwerth yr iaith.

'*The Welsh language is a vast drawback to Wales and a mainfold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people'* - meddai'r adroddiad.

Drwy gysylltu'r iaith ym meddyliau pobl ag anwybodaeth, anfoesoldeb ac aflwyddiant, llwyddwyd i gychwyn y broses oedd i sicrhau ymhen canrif mai'r Saesneg fyddai prif iaith Cymru.

Deddf Iaith 1993 roddodd statws cyfreithiol i'r Gymraeg ym mywyd cyhoeddus Cymru am y tro cyntaf ers Deddf Uno 1536. Gan mai ymwneud â'r sector cyhoeddus yn unig y mae oblygiadau'r Ddeddf, y mae'r ffaith iddi gael ei hepgor o'r sector preifat a'r sector gwirfoddol yn golygu bod adfer statws llawn iddi fel iaith sydd yn berthnasol i bob agwedd o'n bywyd beunyddiol yn parhau yn anghyflawn.

## **2.13** *Diffyg Dilyniant mewn Addysg Gymraeg*

Gan mai addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yw un o gonglfeini'r adfywiad diweddar yn yr iaith Gymraeg y mae rôl allweddol gan y gyfundrefn addysg i'w chwarae os ydym am sicrhau cynnydd parhaol yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd nesaf

Yn ôl yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael y mae rhyw **21%** o ddisgyblion yn mynychu ysgolion cynradd ble mae'r Gymraeg yn unig, brif neu'n rhannol gyfrwng dysgu yn y dosbarth.

Erbyn iddynt gyrraedd y sector uwchradd y mae'r ffigwr hwn wedi gostwng i tua **13%.** Rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd y mae tua **8%** o blant Cymru yn symud o fod yn Gymraeg iaith gyntaf i fod yn Gymraeg ail-iaith.

Y mae'r sefyllfa yn y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch hyn yn oed yn waeth.

**2.3%** o fyfyrwyr a gaiff eu hasesu'n ffurfiol yn y Gymraeg mewn Colegau Addysg Bellach ac **1.6%** mewn Colegau Addysg Uwch.

Gan fod dirywiad brawychus yn digwydd ar hyd y continiwwm addysg wrth i ddisgyblion symud o un sector i'r llall y mae'n rhaid holi cwestiynau yngl•n â gwerth y buddsoddiad enfawr a wneir yn y sectorau meithrin a chynradd oni sicrheir dilyniant yn y sectorau eraill.

Y mae'r diffyg dilyniant hefyd yn codi nifer o gwestiynau yngl•n â'r modd y mae polisïau addysg awdurdodau lleol yn cael eu hyrwyddo a'u monitro, faint o ymwybyddiaeth sydd gan rieni a phlant o fanteision dwyieithrwydd, a rôl y gwasanaeth gyrfâu o safbwynt hysbysu disgyblion o'r swyddi cynyddol sydd ar gael sydd yn gofyn am sgiliau dwyieithog.

## 3. Argymhellion Polisi Cyffredinol

**3.1** Y mae Mentrau Iaith Cymru o'r farn bod yr 20-30 mlynedd nesaf yn gwbl dyngedfennol i ddyfodol y Gymraeg. Oni fydd polisïau cwbl radical a blaengar yn cael eu mabwysiadu a'u hyrwyddo ar fyrder yna gallwn weld diflaniad llwyr y cymunedau Cymraeg hynny sydd wedi bod yn gymaint rhan o hanes a thraddodiad Cymru ers canrifoedd lawer, ac o ganlyniad wanhau'r ymdrechion clodwiw a wneir mewn ardaloedd sydd wedi colli'r Gymraeg ond sydd ar hyn o bryd yn profi adfywiad.

### 3.2 *Y Cynulliad Cenedlaethol*

**3.2.1** Yr ydym yn croesawu ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i greu Cymru ddwyieithog, ond yn pwysleisio na fydd y datganiad cenhadaeth hwn yn cael ei wireddu oni cheir arweiniad gwleidyddol diamwys gan lywodraeth Cymru.

**3.2.2** Y mae Mentrau Iaith Cymru yn nodi bod y llwyddiannau a gafwyd yng Ngwlad y Basg a Chatalwnia i adfer eu hieithoedd brodorol i'w priodoli i raddau helaeth iawn i'r arweiniad moesol a gwleidyddol a gafwyd gan y naill lywodraeth a'r llall.

**3.2.3** Fel cam tuag at greu Cymru ddwyieithog y mae Mentrau Iaith Cymru yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu'r Gymraeg fel pwnc llorweddol o fewn ei Weinyddiaeth ac i sefydlu Uned i arolygu datblygiad y Gymraeg ochr yn ochr â themâu llorweddol eraill megis cyfleoedd cyfartal a'r amgylchedd. Byddai'r datblygiad hwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gosod ar agenda bob un o'r pwyllgorau pwnc a'r pwyllgorau traws-bynciol ac felly'n cael ei hystyried fel elfen ganolog o'u strategaethau datblygu.

**3.2.4** Drwy integreiddio'r Gymraeg i bob agwedd o weinyddiaeth y Cynulliad byddai hyn yn dangos esiampl i gyrff statudol eraill sydd ar hyn o bryd naill ai'n ystyried y Gymraeg fel pwnc atodol neu ymylol.

**3.2.5** Dylai'r Gymraeg hefyd fod yn bwnc llorweddol yng ngweithrediad Cronfeydd Strwythurol Ewrop – yn arbennig Amcan 1 – fel y mae cyfleoedd cyfartal, yr amgylchedd a thechnoleg cyfathrebu a gwybodaeth.

**3.2.6** Er mwyn sicrhau bod rhaglenni Amcan 1 (yn ogystal ag Amcanion 2 a 3) yn cynnwys cynlluniau sydd yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ynghyd â gwella sgiliau siaradwyr Cymraeg ac ehangu'r nifer o fusnesau sydd yn cael eu perchnogi gan siaradwyr Cymraeg, dylai bob Bwrdd Partneriaethol Lleol sicrhau bod aelod yn cael ei gyfethol gyda chyfrifoldeb arbennig am y Gymraeg. Byddai'r person hwnnw yn gallu cynorthwyo'r sawl sydd yn cyflwyno ceisiadau i sylweddoli potensial cynnwys elfennau ym mhob cais sydd yn ymwneud ag ehangu'r defnydd o'r Gymraeg.

**3.2.7** Galwn ar y Cynulliad i sicrhau bod cyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa, y Bwrdd Croeso, Cyngor y Celfyddydau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chyngor Cefngwlad Cymru hefyd yn cynnwys adfywio'r Gymraeg yn eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredol, fel bod ymrwymiad unol a momentwm ymchwyddol yn cael ei sianelu o blaid creu Cymru gwirioneddol ddwyieithog.

## 3.3 *Dyfodol y Broydd Cymraeg*

**3.3.1** Credwn fod rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi sylw arbennig i ddyfodol y broydd Cymraeg. Heb barhad yr ardaloedd hyn mi fydd prif ffynhonnell ysbrydoliaeth hyrwyddwyr iaith ledled Cymru yn gwanychu.

Fe fyddai colli'r broydd traddodiadol Cymraeg yn gymaint o ergyd seicolegol i siaradwyr a dysgwyr yr iaith fel y gellid yn hawdd proffwydo y byddai hi wedi darfod ar y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw o fewn byr amser. Yr hyn fyddai'n weddill byddai rhwydweithiau o siaradwyr Cymraeg yn brwydro i oroesi a chyfiawnhau eu bodolaeth yng nghanol môr o Seisnigrwydd.

**3.3.2** Er mwyn sicrhau cynaladwyedd y lliaws critigol ('critical mass') o siaradwyr Cymraeg sydd yn hanfodol i barhad y broydd Cymraeg y mae'n rhaid wrth strategaeth holistaidd a chynhwysfawr gyda'r nod clir o osod y Gymraeg ar lwybr ffyniant.

**3.3.3** Serch hynny ni ddylai'r strategaeth hon fod yn gyfyngedig i'r broydd Cymraeg yn unig.

Dylai unrhyw strategaeth gynnwys polisïau ar gyfer adfer y Gymraeg ym mhob rhan o Gymru.

### **3.4** *Sefydlu Corff Cynllunio Ieithyddol ac Economaidd*

**3.4.1** Argymhellwn y dylid sefydlu Corff Cynllunio Ieithyddol ac Economaidd i Gymru - gyda phwerau statudol – i hybu'r economi, addysg a hyfforddiant, ansawdd bywyd a'r iaith Gymraeg.

**3.4.2** Er mwyn creu strategaeth adfywio economaidd, cymdeithasol a ieithyddol.

byddai'r corff hwn o reidrwydd yn tynnu ar arbenigedd cyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa, y Bwrdd Croeso a Chyngor Cefngwlad Cymru, gan ymgorffori hefyd yr arbenigedd a ddatblygwyd dros y blynyddoedd gan asiantaethau menter megis Menter a Busnes, Antur Teifi, Cymad a Menter Môn, ynghyd âr mentrau iaith.

**3.4.3** Mi fyddai'r corff hwn - a fyddai'n cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol - yn gweithredu fel pwerdy ar gyfer datblygu syniadau, hyrwyddo prosiectau ymchwil ac asesu anghenion (ar y cyd â Cholegau Addysg Uwch a Phellach), ariannu cynlluniau blaengar, annog mewnfuddsoddi (a fyddai'n sensitif i gynaladwyedd yr economi lleol), sbarduno entrepreneriaeth, rhoi cyngor a chefnogaeth i fusnesau lleol, monitro a gwerthuso effaith datblygiadau economaidd a pholisïau defnydd tir ar yr iaith Gymraeg ac yn gyffredinol sicrhau bod cydbwysedd yn bodoli rhwng cynnydd economaidd ac adferiad iaith.

**3.4.4** Nid yw sefydlu Corff Cynllunio o'r fath yn golygu y byddai llai o bwyslais yn cael ei roi ar yr ardaloedd hynny sydd wedi colli'r Gymraeg yn ddiweddar neu sydd yn ceisio ail-sefydlu rhwydweithiau a pheuoedd Cymraeg mewn ardaloedd a Seisnigwyd ers cenedlaethau. Y mae datblygiad ieithyddol yr ardaloedd hyn yr un mor bwysig i ddyfodol y Gymraeg os ydym am wireddu'r nod o greu Cymru ddwyieithog.

**3.4.5** Y mae gan gyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a chronfeydd llywodraethol megis y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol gyfrifoldeb statudol tuag at ddiwallu anghenion economaidd a chymdeithasol, a datblygu sgiliau a hyder siaradwyr Cymraeg lle bynnag y maent yn byw neu'n gweithio.

**3.4.6** Drwy annog bob un o'r mentrau iaith i esblygu i fod yn asiantaethau datblygu cymunedol gellid sicrhau bod cefnogaeth arbenigol a ffynonellau nawdd ar gael i integreiddio cynlluniau iaith a chynlluniau ym maes hyfforddiant, datblygu economaidd, gofal plant, hamdden a chwaraeon, gwasanaethau ieuenctid a gofal cymdeithasol.

## **3.5** *Datblygu Economaidd a Chymunedol*

**3.5.1** Cydnabyddir y bydd y dasg o chwyldroi economi Cymru, yn arbennig yn yr ardaloedd mwyaf dirwasgiedig, yn un anferth.

Gan fod **75%** o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ardal Amcan 1 – sydd ynddi ei hun yn un o'r

ardaloedd tlotaf yn Ewrop gyfan – y mae i lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y Gronfa Strwythurol hon (ac i raddau llai Amcanion 2 a 3) oblygiadau ieithyddol ac economaidd sylweddol.

Y mae'n hanfodol bwysig felly fod y Cynulliad, ac ymhlith eraill Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn cydweithio er mwyn sicrhau'r ffyniant economaidd angenrheidiol i ardaloedd y gogledd a'r gorllewin.

**3.5.2** Gan fod ffactorau economaidd megis mewnfudo ac allfudo yn bygwth seiliau cymunedau Cymraeg eu hiaith erfyniwn ar Lywodraeth Cymru i roi arweiniad ar bolisïau cenedlaethol sydd yn pwysleisio'r berthynas rhwng iaith ac economi.

**3.5.3** I gynorthwyo gyda'r nod o geisio cadw siaradwyr Cymraeg ifainc yng Nghymru drwy greu swyddi a llwybrau gyrfaol deniadol iddynt dylid datblygu Strategaeth Marchnad Llafur fyddai'n cynnwys mewnbwn gan gyrff datblygu economaidd, addysg a hyfforddiant, a'r gwasanaethau gyrfâu.

Pwrpas y Strategaeth Marchnad Llafur fyddai darganfod beth yw anghenion cyflogwyr ar draws nifer o sectorau gwahanol o safbwynt recriwtio staff â sgiliau dwyieithog (fel y mae Cynllun 'Gorwelion' wedi ei wneud yn llwyddiannus mewn nifer o ardaloedd), cyfeirio disgyblion ysgol, myfyrwyr coleg a hyfforddeion at y cyfleoedd gyrfaol sydd ar gael lle nodir bod sgiliau dwyieithog yn fanteisiol, sefydlu sustem dracio fyddai'n gallu dilyn hynt gyrfaol siaradwyr Cymraeg er mwyn eu denu yn ôl i fuddsoddi o'u talentau yn economi Cymru, a sbarduno siaradwyr Cymraeg i gychwyn busnes mewn sectorau *niche* neu sectorau a adnabyddir fel rhai â photensial ar gyfer twf.

Byddai gweithredu sustem dracio yn arbennig o fuddiol nid yn unig o safbwynt y broydd Cymraeg ond hefyd yn y de a'r gogledd-ddwyrain lle y mae cannoedd o ddisgyblion dwyieithog yn gadael ein hysgolion Cymraeg pob blwyddyn.

**3.5.4** Er mwyn cryfhau economi'r broydd Cymraeg a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifainc i ddod o hyd i swyddi proffesiynol a deniadol, gofynnir i'r Cynulliad ymchwilio i ddichonolrwydd symud pencadlysoedd nifer o'n cyrff cyhoeddus a statudol o Gaerdydd i Orllewin Cymru.

Gellid dadlau y byddai symud cyrff megis Bwrdd yr Iaith, y Bwrdd Croeso, Cyngor y Celfyddydau, S4C a rhai o adrannau'r Cynulliad ynghyd â nifer o'n cyrff addysg yn hwb aruthrol i economi a statws cefngwlad Cymru lle y mae'r iaith yn brwydro am ei heinioes ar hyn y bryd.

Dyma'r math o strategaeth ieithyddol/ economaidd bwriadus y mae'r Iwerddon wedi bod yn ei hyrwyddo dros y blynyddoedd diwethaf wrth iddynt leoli pencadlysoedd rhai o'r cyrff hynny sydd yn ymwneud â'r iaith a'r diwylliant Gwyddelig yn ardaloedd y Gaeltacht.

**3.5.5** I gynorthwyo'r mentrau iaith ac asiantaethau datblygu cymunedol i roi hwb i'r economi lleol cefnogir y syniad o sefydlu Cronfa Gymunedol er mwyn caniatáu i gymunedau lleol brynu

neu reoli rhyddfraint tafarnau, swyddfeydd post, siopau pentrefol neu garejis petrol.

Nid yn unig y byddai hyn yn gyfraniad i ddatblygiad economaidd ardal, byddai hefyd yn creu swyddi i bobl leol yn ogystal ag ymbweru a galluogi trigolion i gyfrannu i gynaladwyedd economaidd a chymdeithasol eu cymunedau.

## **3.6** *Tai a Chynllunio*

**3.6.1** Y mae Mentrau Iaith Cymru o'r farn bod angen newidiadau polisi radical ym maes tai a chynllunio er mwyn diogelu'r iaith yng Nghymru - yn arbennig yn y Gymru wledig.

**3.6.2** Credwn yn yr egwyddor sylfaenol y dylai fod hawl gan bobl brynu t• yn eu milltir sgwâr petaent yn dymuno hynny a chael swydd o fewn pellter rhesymol i'w cartref.

**3.6.3** Croesewir y ffaith bod Nodyn Cyngor Technegol 20 sydd yn cyfeirio at yr iaith Gymraeg wedi cael ei gryfhau rywfaint yn y Canllawiau Ymgynghorol diweddar a ddatblygwyd gan y Gweinidog dros Dai a'r Amgylchedd.

**3.6.4** Croesewir hefyd gynllun y Cynulliad sydd yn ei gwneud hi'n bosibl i grantiau di-log hyd at 50% fod ar gael ar dai a brynwyd dan y Cynllun Cymorth Prynu. Gobeithir y gwelir cynnydd blynyddol gan y Cynulliad yn yr arian a roddir i gefnogi'r cynllun pwysig hwn.

**3.6.5** Er mwyn osgoi gorfod proffwydo maint y galw am dai, weithiau am gyfnod hyd at bum mlynedd, dylai awdurdodau cynllunio wneud ymchwil fanwl a pharhaol i'r angen am gartrefi ac eiddo, a chyflwr tai ym mhob cymuned a dylent lunio strategaeth i ddiwallu'r anghenion hynny oddi fewn i'r stoc dai ac eiddo presennol lle bo modd.

**3.6.6** Pe bai cais am ganiatâd cynllunio yn dod gerbron awdurdod lleol ar gyfer datblygiad preswyl newydd o fwy na deg o dai mewn ardaloedd gwledig, dylai fod gofyniad am Asesiad Effaith Ieithyddol cyn penderfynu'n derfynol ar y cais. Dylid hefyd osod cyfyngiad amser ar bob caniatâd cynllunio a roddir i ddatblygwyr.

**3.6.7** Er mwyn rheoli'r nifer o dai haf mewn unrhyw ardal dylid creu is-ddeddfwriaeth sydd yn ei wneud yn angenrheidiol i unrhyw berson sydd am brynu t• ar gyfer ei ddefnyddio fel t• haf sicrhau caniatâd 'Newid Defnydd.'

Pe byddai'r nifer o dai haf yn mynd yn uwch na'r trothwy a fyddai'n dderbyniol gan awdurdodau cynllunio er mwyn sicrhau cynaldwyedd cymunedau gwledig yna gallai'r caniatâd gael ei wrthod.

**3.6.8** Cefnogir yr egwyddor y dylai cynghorau fedru codi trethi hyd at 200% ar ail gartrefi er mwyn gwneud yn iawn am y colledion a achosir i'r economi gan ail gartrefi ac fel cymhorthdâl ar gyfer cynnal gwasanaethau lleol.

## 7. *Addysg a Hyfforddiant*

**3.7.1** Y mae Mentrau Iaith Cymru yn cydnabod pwysigrwydd addysg Gymraeg a Dwyieithog i ddyfodol y Gymraeg ond hefyd yn mynegi pryder yngl•n â'r diffyg dilyniant sydd yn bodoli rhwng y sector cynradd ac uwchradd, a rhwng y sector uwchradd a'r sector addysg bellach ac uwch.

2. Y mae Mentrau Iaith Cymru yn galw am sefydlu corff cenedlaethol i gydlynu, cefnogi a hyrwyddo addysg Gymraeg. Gallai'r corff hwn fod yn gorff annibynnol neu'n gorff y tu fewn i gorff mwy fyddai'n gyfrifol am addysg yng Nghymru.

**3.7.3** Dylai'r corff hwn annog awdurdodau addysg lleol i gynnal arolygon blynyddol ymhlith rhieni a darpar-rieni o'r galw am addysg Gymraeg/Dwyieithog a blaen-gynllunio er mwyn darparu cyfleoedd yn ôl yr angen.

**3.7.4** Ar sail y data a gasglwyd dylai'r Corff Addysg Cenedlaethol osod targedau manwl ac uchelgeisiol dros gyfnod o 10 mlynedd er mwyn chwyldroi sefyllfa'r iaith yn y sector cynradd ac uwchradd.

**3.7.5** Er mwyn atal y lleihad sylweddol yn nifer y plant sydd yn derbyn addysg Gymraeg neu ddwyieithog wrth iddynt drosglwyddo o'r sector cynradd i'r uwchradd (21% > 13%) dylid gosod targedau dilyniant i bob sir sy'n cyfateb fan lleiaf i lefelau'r sector cynradd.

**3.7.6** Cefnogir yr egwyddor y dylai ysgol uwchradd benodedig Gymraeg fod ar gael o fewn cyrraedd rhesymol i bob plentyn.

**3.7.7** Er mwy sicrhau twf mewn addysg uwchradd Gymraeg dylid pennu targedau ar gyfer troi nifer o ysgolion 'traddodiadol Gymraeg' neu ysgolion penodedig ddwyieithog yn ysgolion Cymraeg a throi nifer o ysgolion Saesneg yn rhai dwyieithog.

**3.7.8** Er mwyn osgoi'r cwymp yn y nifer o blant sydd yn parhau i astudio'r Gymraeg fel 'iaith gyntaf' yn yr ysgol uwchradd, dylid dileu dysgu Cymraeg fel 'ail iaith.' Yn hytrach dylid gweld dysgu'r iaith fel continiwwm lle y byddai pob disgybl i wahanol raddau yn cael eu cydnabod fel siaradwyr Cymraeg.

**3.7.9** Dylai'r corff hyrwyddo addysg Gymraeg gynnal ymgyrchoedd marchnata cyson i gynyddu'r galw am addysg Gymraeg a sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cymwys drwy ymgyrchoedd recriwtio grymus.

10. Er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach ac uwch y mae Mentrau Iaith Cymru yn cefnogi'r cynllun a argymhellir gan Ganolfan Bedwyr ym Mangor i sefydlu Coleg Cymraeg rhithiol.

**3.7.11** Croesewir y ffaith bod dwyieithrwydd yn un o'r tri phwnc llorweddol yng Nghynllun Corfforaethol ELWa. Hyderir fodd bynnag y bydd ELWa yn cymryd rôl rhagweithiol wrth sefydlu hyfforddiant dwyieithog a'i sefydlu fel darpariaeth normal ym mhob cwr o Gymru.

## **3.8** *Cymraeg i Oedolion*

**3.8.1** Gan fod maes Cymraeg i Oedolion mor gwbl allweddol o ran cynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg, a gan fod diffygion sylweddol yn y gyfundrefn bresennol, y mae Mentrau Iaith Cymru yn galw am sefydlu corff rheoli a datblygu tebyg i HABE yng Ngwlad y Basg i fod yn gyfrifol am oruchwylio, cydlynu a chyllido'r maes.

**3.8.2** Cydnabyddir swyddogaeth bwysig maes Cymraeg i Oedolion o safbwynt cyflawni dwy nod, sef cymhathu mewnfudwyr a darparu cyfleoedd i Gymry di-Gymraeg a siaradwyr di-hyder ddysgu neu loywi eu hiaith.

**3.8.3** Noder er gwybodaeth bod tua £30 miliwn yn cael ei wario yng Ngwlad y Basg ar ddysgu Basgeg i Oedolion sydd yn cyfateb i ffigwr o £3 miliwn yng Nghymru.

Yng Ngwlad y Basg y mae 40,000 o oedolion yn cael eu dysgu gan 1,800 o athrawon mewn 140 o ganolfannau iaith - yng Nghymru y mae llai na 18,000 yn dysgu Cymraeg bob blwyddyn gan 750 o diwtoriaid mewn tua 8 o ganolfannau.

**3.8.4** Noder hefyd mai £100,000 y flwyddyn yn unig a roddir gan ELWa tuag at waith datblygu yn y maes, sydd yn dipyn llai nag a roddir ganddynt i ddysgu Saesneg i bobl dramor yng Nghymru ar gynlluniau ESOL.

**3.8.5** Un o flaenoriaethau Corff Datblygu Cymraeg i Oedolion fyddai sefydlu rhwydwaith o ganolfannau iaith ar draws Cymru. Swyddogaeth bennaf y canolfannau hyn fyddai darparu cyrsiau dysgu Cymraeg dwys a chyrsiau gloywi iaith ar yr adegau mwyaf priodol o safbwynt gofynion lleol.

Gallai'r canolfannau hyn hefyd ddarparu hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Iaith a chyrsiau i ymfudwyr ar gefndir hanesyddol a diwylliannol yr ardal.

**3.8.6** Dylid defnyddio'r canolfannau hyn (a allai gael eu lleoli mewn ysgolion gwledig neu ganolfannau i hwyr-ddyfodiaid) mewn modd greadigol fyddai'n caniatau i blant a'u rhieni ddysgu Cymraeg ochr-yn-ochr â'i gilydd.

**3.8.7** Fel sydd yn digwydd ar raddfa eang yng Ngwlad y Basg dylid neilltuo arian fyddai'n caniatau i gyrff cyhoeddus a statudol ryddhau staff di-Gymraeg am gyfnod sylweddol o amser i ddilyn cyrsiau dwys naill ai yn un o'r canolfannau iaith lleol neu yn y gweithle.

**3.8.8** Dylid hefyd fuddsoddi llawer mwy mewn cyrsiau gloywi iaith er mwyn gwella sgiliau a hyder siaradwyr Cymraeg gan berthnasu'r deunydd i anghenion y gweithle.

**3.8.9** Fel yn achos y sawl fyddai'n cael eu rhyddhau i ddysgu Cymraeg neu loywi eu hiaith dylid sefydlu sustem fentora yn y gweithle fyddai'n caniatau iddynt ddefnyddio'r iaith mewn modd ymarferol a gweithredol dan ofal mentoriaid hyfforddiedig.

**3.8.10** Y mae'n amlwg ddigon, er mwyn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a diogelu parhad ein cymunedau naturiol Gymraeg - gan roi i'r newydd-ddyfodiad a'r Cymry brodorol y sgiliau angenrheidiol fyddai'n cyfrannu tuag at greu cymdeithas gynhwysol, wâr - a pharhau â'r twf mewn diddordeb a welir mewn ardaloedd eraill, bod rhaid wrth fuddsoddiad ariannol sylweddol iawn ym maes Cymraeg i Oedolion a hynny ar fyrder.

**3.8.11** Y mae Mentrau Iaith Cymru fel mater o flaenoriaeth yn erfyn ar y Cynulliad Cenedlaethol drwy'r nawdd a ddyrennir i Fwrdd yr Iaith ac ELWa i gynyddu'n sylweddol eu cyfraniad tuag at faes Cymraeg i Oedolion er mwyn symud tuag at ddarpariaeth debyg i'r hyn a geir yng Ngwlad y Basg.

## 3.9 *Statws i'r Iaith*

**3.9.1** Y mae Mentrau Iaith Cymru yn cefnogi'r galw cynyddol am ddiwygio Deddf yr Iaith ,1993. Er bod y Ddeddf hon wedi bod yn bwysig o safbwynt codi statws a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, y mae angen iddi fod yn fwy perthnasol i amgylchiadau heddiw drwy gynnwys cyfleustodau preifateiddiedig, banciau, siopau cadwyn stryd fawr, archfarchnadoedd, cwmnïau gwasanaethau ariannol a chwmnïau rhyngwladol meddalwedd cyfrifiadurol.

2. Byddai ehangu cwmpas Deddf Iaith 1993 yn cryfhau statws a hygrededd y Gymraeg mewn meysydd tebyg i dechnoleg telegyfathrebu sydd ar flaen y gad o safbwynt datblygiadau cyfoes a phoblogaidd.

## 3.10 *Datblygu Twristiaeth Ddiwylliannol*

**3.10.1** Mae twristiaeth yn gallu bod yn ffon ddeubig. Ar y naill law, fel y nodwyd eisoes, y mae effeithiau twristiaeth o safbwynt denu mewnfudwyr i Gymru yn gallu bod yn niweidiol i'r Gymraeg. Ar y llaw arall, o'i reoli'n ofalus, gall fod yn fendith economaidd ac yn hwb sylweddol i'r iaith.

**3.10.2** Y mae Mentrau Iaith Cymru yn galw ar y Bwrdd Croeso i fynnu, fel amod o roi gymhorthdâl, bod pob menter neu gynllun sy'n elwa o gymorth cyllidol y Bwrdd yn paratoi asesiad byr o sut y maent yn ystyried y bydd y prosiect yn dylanwadu ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.

**3.10.3** Dylai'r Bwrdd Croeso fel rhan o'i weinyddiaeth ganolog greu uned ddatblygu diwylliannol i hyrwyddo'r ddelwedd o Gymru ddwyieithog.

4. Dylid ehangu'r cynllun 'Naws am Le' a sicrhau adnoddau digonol i'w farchnata a'i hyrwyddo er mwyn sicrhau bod croeso dwyieithog ar gael i ymwelwyr - yn weledol ac ar lafar.
5. Cefnogir sefydlu cylchdaith adloniant fyddai'n sicrhau bod y celfyddydau perfformio yn y Gymraeg - cyfoes a thraddodiadol - yn fwy deniadol ac yn cyrraedd mannau cymdeithasu anffurfiol fel gwestai, tafarndai a bwytai.

## **3.11** *Y Cyfryngau Torfol a Thechnoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth*

**3.11.1** Er mwyn sicrhau bod gwasanaeth teledu digidol ar gael i bawb yng Nghymru (fyddai'n caniatáu iddynt wylio S4C1 ac S4C2) y mae Mentrau Iaith Cymru yn cefnogi galwad S4C am ragor o gyllid i sicrhau treiddiad lloeren neu gêbl cyflawn ar draws Cymru ac i ddarparu rhaglenni o safon ar y gwasanaeth digidol ac analog.

**3.11.2** Noder bod y BBC (drwy gynyddu pris trwydded teledu) a Channel 4 (drwy sybsidi canolog) wedi buddsoddi'n helaeth yn eu gwasanaeth digidol er mwyn gwella ansawdd y dechnoleg a safon eu rhaglenni.

**3.11.3** Yn sgîl y cynnydd cyffredinol yn narpariaeth digidol y BBC sydd wedi deillio o fuddsoddiad ychwanegol gan y Llywodraeth dylid pwyso arnynt i gynyddu ar eu cyfraniad o 10 awr i S4C.

**3.11.4** Gan fod pobl ifainc yn flaenoriaeth bwysig o safbwynt dyfodol yr iaith dylid pwyso ar y BBC i sefydlu ail orsaf radio genedlaethol yn y Gymraeg wedi ei thargedu ar gyfer pobl ifainc.

**3.11.5** Dylid pwyso ar yr Awdurdod Radio Cenedlaethol i sicrhau bod gorsafoedd radio lleol sy'n cael eu trwyddedu yng Nghymru yn adlewyrchu yn eu rhaglenni natur ieithyddol yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt.

## 4.0 Argymhellion Ar Gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gymuned

**4.1** Y mae hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel gymunedol wedi bod yn faes y mae'r mentrau iaith yng Nghymru wedi arbenigo ynddo dros nifer o flynyddoedd. Erbyn hyn y mae'r mentrau wedi datblygu enghreifftiau lu o arferion da o safbwynt cynllunio ieithyddol cymunedol a phatrwm o weithredu cynhwysol sydd yn cael ei gydnabod fel model addas ar gyfer ieithoedd lleiafrifol eraill yn Ewrop.

**4.2** Fel y nodwyd ar ddechrau'r papur hwn y mae cwmpas y gwaith yn eang iawn gan fod cymaint o wahanol agweddau ar fywyd cymunedol y mae'n rhaid ceisio dylanwadu arnynt o safbwynt hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg.

**4.3** Y mae'r argymhellion a'r syniadau canlynol wedi eu rhannu yn ôl meysydd gweithgarwch penodol:-

*i) Plant a Phobl Ifainc*

**4.3.1** Gan mai **6%** yn unig o aelwydydd yng Nghymru sydd yn defnyddio'r Gymraeg fel unig neu brif gyfrwng cyfathrebu y mae sicrhau bod cyfleoedd hamdden ar gael i blant drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i barhad yr iaith fel cyfrwng cymunedol.

I'r **21%** o blant Cymru sydd yn cael eu haddysg gynradd yn gyfangwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, yr ysgol yw eu hunig gyswllt â'r iaith. Yn yr un modd y mae darparu cyfleoedd i blant gwrdd a chymdeithasu yn y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol hefyd yn allweddol i ffyniant yr iaith fel iaith gymunedol.

Ymhlith y prosiectau y dylid eu hyrwyddo yn y cyd-destun hwn y mae :-

Clybiau ar-ôl-ysgol - sydd yn rhoi cyfle i blant oed cynradd fwynhau amrywiaeth o weithgareddau addysgiadol, creadigol a hamdden yn syth ar ôl oriau ysgol.

Clybiau Hwyl - cyfle gyda'r hwyr i blant oed cynradd fwynhau gweithgareddau amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Clybiau Bore Sadwrn - cyfle i blant 5-8 oed fwynhau amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau diddorol wedi eu seilio ar ddarllen.

Clybiau Ieuenctid - darparu gweithgareddau cymdeithasol i bobl ifainc 12-18 oed sydd yn addysgiadol, cyfranogol, ymbwerol a mynegiadol.

Cynlluniau Chwarae - darparu cyfleoedd yn ystod gwyliau ysgol i blant a phobl ifainc fwynhau gweithgareddau hamdden, awyr agored a chreadigol o bob math.

Gweithdai - rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifainc ddatblygu ac ymarfer eu sgiliau mewn amrywiaeth o feysydd diddordeb, er enghraifft - drama, ysgrifennu creadigol, chwaraeon, dawns, celf, cerddoriaeth roc, ffotograffiaeth, cynhyrchu fideo, cyfrifiaduron, cymorth cyntaf etc.

Theatr Ieuenctid - cyfle i bobl ifainc ddatblygu eu diddordeb a'u sgiliau ym maes y theatr.

Cyngherddau Roc - codi ymwybyddiaeth o'r sîn roc Cymraeg drwy drefnu cyfres o gigs gan rai o fandiau cyfoes gorau Cymru - mewn clybiau nos, neuaddau pentref neu ysgolion.

Gweithgareddau Diddordeb - trefnu bod gweithgareddau hamdden sydd o ddiddordeb i bobl ifainc megis pêl fasged, pêl droed, gymnasteg, nofio, karate, rygbi, criced, sglefrio iâ etc ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

*ii) Gofal Plant*

**4.3.2** Y mae i ddarparu cynlluniau gofal plant fanteision ieithyddol ac economaidd amlwg.

Ar y naill law y mae darparu cyfleoedd gofal i blant yn gynnar yn y bore neu'n syth ar ôl ysgol yn caniatáu i rieni weithio neu ddilyn cyrsiau hyfforddiant - yn arbennig menywod. Mewn cymunedau dirwasgiedig y mae'r math hwn o ddarpariaeth yn hanfodol i unrhyw ffyniant economaidd.

Gan fod y mentrau yn bennaf yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion penodedig Gymraeg neu ddwyieithog, neu ysgolion Cymraeg 'traddodiadol' y mae'r gallu i ddarparu cynlluniau gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfraniad pwysig o safbwynt ymestyn oriau cyswllt y plentyn â'r iaith y tu hwnt i oriau ysgol arferol.

Gan fod nifer o'r clybiau gofal hyn yn cael eu cynnal mewn neuaddau pentref neu festrïoedd capeli, yn seicolegol, y maent hefyd yn help i greu pont rhwng iaith yr ysgol ac iaith y gymuned.

**4.3.3** Gan mai'r mentrau iaith sydd â'r profiad pennaf hyd yn hyn o ddarparu cyfleoedd gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg - ffaith sy'n cael ei gydnabod gan Glybiau Plant Cymru/Kids Clubs Wales a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF) - dylid cefnogi ymdrechion y mentrau i gryfhau eu rôl yn y maes hwn a sicrhau nawdd o wahanol ffynonellau er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ar draws Cymru gyfan.

**4.3.4** Y mae'r mentrau hefyd yn awyddus i ymestyn y ddarpariaeth o glybiau dysgu ar-ôl-ysgol a noddir gan NOF sydd yn cynnwys cynlluniau dysgu yn ystod gwyliau ysgol.

Prif bwyslais clybiau dysgu yw rhoi cyfleoedd i blant oed cynradd ac uwchradd i flasu a datblygu sgiliau mewn amrywiol weithgareddau sydd yn addysgiadol, creadigol a chyfranogol ond sydd hefyd yn cyfrannu tuag at ddatblygu hunan-hyder a hunan-werth yr unigolyn.

**4.3.5** Y mae'r holl gynlluniau gofal plant a'r gweithgareddau cyffredinol ar gyfer plant a phobl ifainc yn cael eu rhedeg gan dîm o arweinwyr a chynorthwywyr trwyddedig sydd wedi cael eu hyfforddi i ddarparu'r gofal gorau posibl mewn maes allweddol o safbwynt datblygiad yr unigolyn. Dyma'r cyfnod pan y mae plant a phobl ifainc yn dechrau ffurfio barn ac agweddau go bendant sydd fel arfer yn aros gyda hwy am weddill eu bywyd.

O safbwynt magu agweddau ac arferion iach tuag at y defnydd o'r Gymraeg a chreu dinasyddion cytbwys a chyfrifol y mae buddsoddi yn yr ifanc yn fuddsoddiad allweddol a buddiol iawn.

**4.3.6** Gan fod y mentrau fel egwyddor wedi ymrwymo eu hunain i ddatblygu cynhwysedd personol a chymunedol y mae plant gydag anghenion arbennig, neu sydd o dras ethnig neu ddi-Gymraeg yn cael eu cymhathu i brif ffrwd gweithgareddau'r mentrau gyda chryn ofal a sensitifrwydd.

## 4.4 *Trosglwyddiad Iaith yn y Cartref*

**4.4.1** Y mae Mentrau Iaith Cymru yn cefnogi'r prosiect arloesol a hyrwyddir gan Fwrdd yr Iaith ar hyn o bryd, sydd yn cydweithio gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd er mwyn codi ymwybyddiaeth rhieni o fanteision magu plant yn ddwyieithog.

**4.4.2** Gan mai Menter Cwm Gwendraeth a sbardunodd y datblygiadau cychwynnol nôl yn 1996 y mae Mentrau Iaith Cymru yn awyddus i barhau i gydweithio gyda Bwrdd yr Iaith ar y prosiect pwysig hwn drwy wneud cyflwyniadau i ddarpar-rieni a rhieni newydd mewn dosbarthiadau cyn ac ar-ôl mamolaeth, cylchoedd 'Ti a Fi' (sy'n cael eu rhedeg gan Fudiad Ysgolion Meithrin) a

chynlluniau 'Cychwyn Cadarn.'

**4.4.3** Fel atodiad i'r uchod y mae'n fwriad gan y mentrau hefyd i drefnu gweithgareddau teuluol, hwyliog a deniadol er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a'u rhieni o werth cymdeithasol y Gymraeg. Gallai hyn fod ar raddfa fechan fel sioe blant neu rywbeth mwy uchelgeisiol fel 'Parti Ponty' neu 'Miri Myrddin' sydd dros y blynyddoedd diwethaf wedi denu cynulleidfaoedd o rai miloedd.

**4.4.4** Y mae Mentrau Iaith Cymru o'r farn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fuddsoddi llawer mwy o gyllid yn y prosiect allweddol hwn er mwyn caniatáu i Fwrdd yr Iaith, Cwmni Iaith Cyf (sef rheolwyr y prosiect) a'r mentrau iaith hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata deinamig, gael mynediad i fwy o ddosbarthiadau cyn-famolaeth a grwpiau rhieni eraill, gynnal trafodaethau gyda disgyblion ysgol a myfyrwyr Coleg fel rhan o gynllun addysg bersonol a chymdeithasol a lledu'r prosiect ar draws Cymru gyfan.

## 4.5 *Gweithgareddau Cymdeithasol*

**4.5.1** Er mwyn amlhau cyfleoedd i bobl o bob oed gwrdd a chymdeithasu yn y Gymraeg dylid sicrhau cyllid digonol i'r mentrau a mudiadau cyffelyb barhau i drefnu amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol deniadol i bobl o bob oed. Gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys nosweithiau gwerin, cyngherddau, cwisiau pentrefol, cwisiau chwaraeon, sioeau cerdd, discos Cymraeg, dramâu teithiol, cylchoedd llên, sioeau i blant etc.

**4.5.2** Byddai sicrhau bod adloniant neu weithgaredd yn y Gymraeg yn dod yn rhan ganolog o raglen gymdeithasol sefydliadau a chanolfannau poblogaidd megis clybiau rygbi, tafarndai, gwestai, clybiau gweithwyr, clybiau nos neu neuaddau pentref yn cyfrannu'n aruthrol tuag at normaleiddio'r Gymraeg fel cyfrwng adloniant cyhoeddus a hynny mewn mannau cymdeithasu sydd yn draddodiadol, mewn nifer o ardaloedd, wedi cynnal eu gweithgareddau yn y Saesneg.

**4.5.3** Er mwyn cynorthwyo hyrwyddwyr lleol i gynnal adloniant yn y Gymraeg dylid sefydlu Asiantaeth Adloniant genedlaethol. Pwrpas yr asiantaeth fyddai darparu rhestr o artistiaid, cynorthwyo gyda marchnata, trefnu hyfforddiant, cynghori ynghylch cytundebau a thaliadau, a rhoi cyngor cyffredinol i bobl sydd yn gyfrifol am hyrwyddo adloniant.

**4.5.4** Dylai'r mentrau iaith a'r Bwrdd Croeso gydweithio i gryfhau'r nifer o •yliau diwylliannol a chelfyddydol sydd yn cael eu hyrwyddo ledled Cymru a rhoi cymorth i fudiadau lleol i sefydlu G•yliau o'r newydd mewn ardaloedd penodol.

Eisoes y mae'r mentrau yn chwarae rhan flaenllaw yn nhrefniadau G•yl Llangefni, G•yl yr Afon (Dyffryn Teifi), G•yl y Cnape (Dyffryn Aman), G•yl y Gwendraeth a G•yl Llandeilo.

Y mae'r G•yliau hyn nid yn unig yn llwyfan i ddathlu'r gorau o ddiwylliant Cymru, maent hefyd yn gallu rhoi hwb sylweddol i'r economi leol.

## 4.6 *Hybu'r Gymraeg ymhlith Busnesau*

**4.6.1** Dylid rhoi cymorth ariannol i'r mentrau ddatblygu mwy o 'Becynnau Gwybodaeth' sydd eisoes wedi cael eu dosbarthu i gannoedd o fusnesau mewn sawl ardal o Gymru.

Mae'r pecynnau hyn yn cynnwys manylion am grantiau ar gyfer arwyddion neu lenyddiaeth marchnata dwyieithog, bathodynnau a sticeri *Iaith Gwaith* sydd yn dynodi pa staff sydd yn ddwyieithog, arwyddion drws 'Ar Agor'/'Ar Gau', gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg yn y gweithle a manylion yngl•n â chyfieithwyr a dylunwyr dwyieithog.

Mae'r pecynnau hyn eisoes wedi profi'n llwyddiannus iawn, ond yn anffodus oherwydd costau, nid oes modd cynhyrchu cymaint ag sydd angen er mwyn targedu'r prif ganolfannau siopa ar draws Cymru.

**4.6.2** I godi proffil y Gymraeg yn y sector arlwyo a thwristiaeth y mae'r mentrau hefyd wedi bod yn hybu cynllun y Bwrdd Iaith sef - 'Ennill Tamaid' drwy gyfieithu bwydlenni i dai bwyta a gwestai. Y mae hwn yn brosiect pwysig iawn o ran sicrhau delwedd gyhoeddus i'r Gymraeg y dylid ei hyrwyddo'n ehangach.

**4.6.3** Er mwyn cael darlun cywir o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y sector fusnes, gan berchnogion/rheolwyr, staff a chwsmeriaid, ac asesu eu hanghenion hyfforddiant, dylid cydweithio â Cholegau Addysg Uwch, cyrff fel Menter a Busnes ac asiantaethau datblygu cymunedol lleol ar brosiectau ymchwil. Dim ond drwy gasglu data manwl a dibynadwy y gellir sicrhau'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth mwyaf priodol i fusnesau fyddai'n caniatáu iddynt roi'r gwasanaeth gorau i'w cwsmeriaid o ran ansawdd a dewis iaith.

## 4.7 *Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Sector Gwirfoddol*

**4.7.1** Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector gwirfoddol dylid cefnogi cynllun 'Estyn Llaw' a sicrhau adnoddau digonol iddo fedru ymestyn i bob cwr o Gymru.

Prif amcanion y cynllun - sydd ar hyn o bryd yn weithredol yng Ngheredigion a gogledd Sir Gaerfyrddin - yw cynnal arolwg o'r defnydd o'r Gymraeg gan fudiadau gwirfoddol, asesu eu hanghenion hyfforddiant , cydweithio â mudiadau unigol i ddatblygu gwasanaethau dwyieithog, datblygu canllawiau polisi a darparu hyfforddiant priodol i staff a gwirfoddolwyr.

Y mae llwyddiant cynnar y prosiect yn profi'n ddi-amau bod angen lledaenu'r prosiect hwn ymhellach. Y mae'r ffaith bod tua 30,000 o fudiadau gwirfoddol yn weithredol yng Nghymru sydd yn cael cefnogaeth ymarferol gan 2.8 miliwn o wirfoddolwyr yn tanlinellu pa mor allweddol yw'r sector gwirfoddol i'n ffyniant economaidd a chymdeithasol.

**4.7.2** Dylid hefyd annog Cynghorau Bro a Thref wrth ddosbarthu grantiau i fudiadau a gweithgareddau lleol e.e sioeau amaethyddol, sioeau garddwriaethol , mabolgampau, carnifals etc.gynnwys amod yn eu cytundeb sydd yn gofyn iddynt weithredu polisi dwyieithog cyflawn.

I'w cynorthwyo i gyflawni'r nod byddai'r mentrau iaith yn fwy na pharod i roi cymorth ymarferol i fudiadau lleol gydag unrhyw waith cyfieithu neu ddylunio.

## **4.8** *Cymraeg i Oedolion*

**4.8.1** Mewn cydweithrediad â'r Consortia Cymraeg i Oedolion a darparwyr lleol dylid gofyn i'r mentrau iaith gymryd y cyfrifoldeb am reoli'r rhwydwaith o ganolfannau iaith a argymhellwyd yn flaenorol.

Rhagwelir y byddai'r canolfannau hyn yn darparu cyrsiau i ddysgwyr ar wahanol lefelau ynghyd â chyrsiau gloywi iaith (llafar ac ysgrifenedig)i siaradwyr Cymraeg di-hyder, cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mewn amryw o feysydd galwedigaethol.

**4.8.2** Y canolfannau hyn hefyd fyddai'n gyfrifol am ddarparu cyrsiau i arweinwyr cymunedol yn ogystal â gwirfoddolwyr a gweithwyr o'r sector gwirfoddol mewn meysydd megis - sgiliau pwyllgora, hwyluso cyfarfodydd dwyieithog, gweithredu offer cyfieithu ar-y-pryd, cyfathrebu â'r wasg, datblygu gwefan, sgiliau cyfieithu etc.

**4.8.3** Fel sydd yn digwydd yn nifer o ardaloedd yn y Gaeltacht yn yr Iwerddon dylid datblygu'r syniad o 'wyliau fferm' i ddysgwyr fyddai'n cyplysu dysgu Cymraeg ffurfiol a'r profiad unigryw o allu defnyddio'r iaith gyda theulu o siaradwyr Cymraeg.

O fabwysiadu'r cynllun gallai gyflawni dau nod - yn gyntaf rhoi cyfleoedd i ddysgwyr (a allai ddod fel unigolion neu deulu cyfan) i fyw mewn awyrgylch deuluol naturiol Gymraeg, ac yn ail, yn wyneb yr argyfwng enbyd sydd yn wynebu'r diwydiant amaeth ar hyn o bryd, roi hwb aruthrol i'r economi wledig.

**4.8.4** Drwy gydweithrediad ysgolion Cymraeg y de a'r gogledd ddwyrain, gellid hefyd ddefnyddio'r canolfannau iaith hyn, yn arbennig y rhai fyddai wedi eu lleoli mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith, fel canolfannau pontio i blant o gartrefi di-Gymraeg.

Drwy letya'r plant gyda theuluoedd lleol gellid atgyfnerthu'r dysgu ffurfiol drwy ddarparu cyfleoedd cymdeithasol ac anffurfiol i'r plant ymarfer eu Cymraeg gyda siaradwyr brodorol.

Unwaith yn rhagor byddai modd i'r cynllun hwn gyfrannu'n sylweddol tuag at ffyniant yr economi lleol.

**4.8.5** Er mwyn darparu cyfleoedd i ddysgwyr gwrdd ac ymarfer eu Cymraeg dylid ymestyn y cynllun peilot sydd yn weithredol yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd lle y mae swyddogion prosiect CYD wedi cael eu penodi i weithio gyda'r mentrau iaith lleol. Prif fwriad y cynllun yw datblygu rhaglen o weithgareddau cymdeithasol er mwyn dod â dysgwyr a siaradwyr Cymraeg ynghyd.

## 4.9 *Cyfieithwyr Cymunedol*

**4.9.1** Er mwyn cynorthwyo mudiadau a chymdeithasau lleol i weithredu'n ddwyieithog dylid sicrhau nawdd i benodi rhwydwaith o Gyfieithwyr Cymunedol i weithio gyda'r mentrau iaith ar draws Cymru.

Prif swyddogaeth y Cyfieithwyr Cymunedol fyddai darparu gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd ac ysgrifenedig i gymdeithasau megis cynghorau bro a thref, cymdeithasau rheini, byrddau llywodraethol ysgolion, mudiadau gwirfoddol o bob math, asiantaethau datblygu cymunedol, grwpiau ffocws, pwyllgorau pentrefol a chyfarfodydd cyhoeddus lleol.

**4.9.2** Byddai sicrhau defnydd cymunedol helaethach o offer cyfieithu ar-y-pryd yn lleihau'r arfer o ddefnyddio'r Saesneg fel *lingua franca* a thrwy hynny sicrhau dewis iaith i bawb mewn sefyllfa o ryngweithio cymdeithasol ffurfiol. Byddai hyn hefyd yn cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg mewn peuoedd cymdeithasol sydd yn draddodiadol wedi gwarafun y defnydd o'r Gymraeg.

**4.9.3** I fudiadau gwirfoddol a nifer o elusennau sydd yn awyddus i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'w cleientau, ond oherwydd prinder adnoddau ariannol a dynol yn methu â gwneud, byddai cael cymorth gyda gwaith cyfieithu ysgrifenedig yn gyfraniad gwerthfawr iawn.

## 4.10 *Pecynnau Croeso i Fewnfudwyr*

**4.10.1** Y mae'r cynllun hwn eisoes wedi ei lansio gan fentrau iaith y gogledd-orllewin.

Bwriad y pecyn croeso - sydd yn cael ei ddosbarthu gan werthwyr tai, swyddfeydd post, canolfannau nawdd cymdeithasol, meddygfeydd ac ysgolion - yw rhoi cyflwyniad cryno i fewnfudwyr o nodweddion ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol yr ardal y maent wedi penderfynu ymgartrefi ynddi. Yn ogystal â'r manylion cefndir ceir gwybodaeth am ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion a chylchoedd meithrin lleol ynghyd â rhifau ffôn cyswllt.

**4.10.2** Er mwyn sicrhau yn bennaf bod mewnfudwyr sydd yn symud i fyw i ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn dod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ddysgu'r iaith, a thrwy hynny hwyluso'r broses o gael eu cymhathu i draddodiad ieithyddol a diwylliannol yr ardal, dylid ymestyn y cynllun i fod yn brosiect cenedlaethol.

**4.10.3** Gan fod cydweithrediad gwerthwyr tai mor dyngedfennol i lwyddiant y prosiect - a gan ei fod yn dibynnu ar gydweithrediad gwirfoddol - dylid annog y Cynulliad Cenedlaethol i ddwyn perswâd ar Gymdeithas y Gwerthwyr Tai i bwyso ar eu haelodau i sicrhau bod y pecynnau croeso yn cael eu dosbarthu fel mater o drefn a bod crynodeb o nodweddion ieithyddol a chymdeithasol yr ardal yn cael ei anfon gyda'r manylion, sydd yn cynnwys disgrifiad o'r t•, a anfonir at brynwyr posibl.

**4.10.4** Gydag anogaeth gan y Cynulliad gobeithir hefyd y gellid sicrhau cydweithrediad darparwyr gwasanaethau eraill â'r dasg o ddosbarthu'r pecynnau croeso. Byddai'r mentrau yn lleol hefyd yn gallu cynorthwyo gyda'r dosbarthu a monitro effeithiolrwydd y prosiect.

**4.11** *<u>Ymgyrchoedd Marchnata</u>*

**4.11.1** Dylai'r Bwrdd Iaith gael arian ychwanegol sylweddol i hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol.

Dylai'r ymgyrchoedd hyn fel mater o flaenoriaeth roi sylw i:

* godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddiad iaith yn y cartref.

* manteision addysg Gymraeg/Dwyieithog.

* annog siaradwyr Cymraeg i wneud defnydd o'r gwasanaethau dwyieithog sydd ar gael, yn arbennig yn y sector cyhoeddus.

* annog y di-Gymraeg a mewnfudwyr i ddysgu'r iaith.

* nodi manteision gyrfaol sgiliau dwyieithog ymhlith yr ifainc.

* amlygu pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol h.y. 'Use it or lose it.!

**4.11.2** Dylid cefnogi'r ymgyrch a lansiwyd yn ddiweddar gan Cered, sef Menter Iaith Ceredigion - 'Cymraeg yn Gyntaf' - sydd yn annog siaradwyr i defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd beunyddiol e.e mewn siopau, banciau, swyddfeydd post etc.

**4.12** *<u>Dylanwadu ar Bolisïau Cyhoeddus a Statudol</u>*

**4.12.1** Er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus a statudol i weithredu er budd y Gymraeg - y tu hwnt i ofynion eu Cynlluniau Iaith - dylid penodi hwyluswyr ('animateurs') ym mhob maes gweithredu sy'n adlewyrchu gwahanol beuoedd a sectorau o fewn ffiniau awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau strategol i adfywio'r Gymraeg.

**4.12.2** Dylid defnyddio'r model a geir yn *Strategaeth Iaith Sir Gaerfyrddin* fel esiampl. Yno nodir pum maes gweithredu posibl:

* addysg a hyfforddiant

* iechyd a gofal cymdeithasol

* busnes a'r economi

* hamdden a diwylliant

* gweithredu cymunedol a gwirfoddol.

Ers cyhoeddi'r Strategaeth ychwanegwyd un maes blaenoriaeth arall, sef - 'Tai a Chynllunio Defnydd Tir.'

Y bwriad yn Sir Gaerfyrddin yw penodi hwyluswyr ar gyfer pob un o'r meysydd gweithredu hyn 'i fod yn adnodd i gyrff o fewn y maes o ran annog a chynghori, darparu gwybodaeth a hyfforddiant, hwyluso datblygiadau newydd a rhannu arfer da.'

### **4.13** *Hybu Darllen yn y Gymraeg*

**4.13.1** Dylid cynyddu'r nawdd sydd ar gael i Bapurau Bro er mwyn sefydlu strwythur gynhaliol fyddai’n caniatáu iddynt weithredu'n fwy proffesiynol.

Byddai nawdd ychwanegol - gan y Bwrdd Iaith neu Gronfeydd Strwythurol Ewrop - yn gallu sicrhau bod cymorth ar gael iddynt gan arbenigwyr mewn sgiliau fel newyddiaduraeth, golygu, cysodi, dylunio, marchnata, rheoli cyllid a gwerthu hysbysebion.

Drwy ddatblygu sgiliau'r gwirfoddolwyr lu sydd yn ymdrechu’n ddygn i gadw ein Papurau Bro mewn busnes ac ar yr un pryd ddarparu cefnogaeth gynhaliol, arbenigol iddynt, gobeithir y gallai'r cynyrchiadau pwysig hyn yn y pen draw fod yn hunan-gynhaliol.

**4.13.2** Gan fod y Papurau Bro wedi gwneud cymaint o gyfraniad dros y blynyddoedd diwethaf o ran meithrin a datblygu'r arfer o ddarllen yn y Gymraeg, dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb i'r posibilrwydd o gyhoeddi papur newyddion dyddiol Cymraeg.

## 5.0 Mentrau Iaith Cymru

**5.1** Er mwyn i'r mentrau iaith ddatblygu ymhellach eu harbenigedd ym maes cynllunio ieithyddol cymunedol dylid gweithredu ar rai o'r prif argymhellion a gafwyd yn yr adroddiad diweddar gan Gwmni Iaith Cyf ar waith y mentrau.

**5.2** Cefnogir er enghraifft yr argymhelliad y dylid cynyddu'r nifer o fentrau iaith bro i 35 ac y dylid sefydlu 14 o strwythurau sirol er mwyn gwasanaethu Cymru gyfan.

**5.3** Cefnogir hefyd yr argymhelliad y dylid sefydlu strwythurau rhanbarthol er mwyn cynnig arweiniad, cymorth a chefnogaeth i'r mentrau bro a sirol er mwyn caniatáu iddynt rwydweithio a chynllunio'n strategol ar raddfa ranbarthol.

**5.4** Y mae Mentrau Iaith Cymru serch hynny yn credu y dylid mynd un cam ymhellach, sef cryfhau statws Mentrau Iaith Cymru fel corff cydlynu cenedlaethol. Y mae'r holl fentrau yn

unfrydol y dylid ymrymuso Mentrau Iaith Cymru er mwyn caniatáu iddo weithredu fel corff ymbarél fyddai'n gallu rhoi cefnogaeth, arweiniad a chyngor ar bob lefel. Byddai hefyd yn gallu datblygu partneriaethau a gweithredu'n strategol ar raddfa genedlaethol.

**5.5** *Prif Swyddogeth Mentrau Iaith Cymru fyddai:*

* creu cyfleoedd i rannu profiadau ac arfer da

* creu cyfleoedd i gyfnewid syniadau

* darparu gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor

* arwain a bugeilio staff y mentrau

* creu'r teimlad o berthyn i dîm

* darparu cyfleoedd hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr

* cynorthwyo'r mentrau i ddarganfod ffynonellau nawdd

* rhoi arweiniad ar reoli cyllid a gweinyddiaeth

* creu strategaethau sirol a rhanbarthol

* cyfrannu i strategaethau cenedlaethol

* datblygu partneriaethau gweithredol gyda mudiadau a chyrff cenedlaethol.

* hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata i godi proffil a statws y mentrau

* lobïo ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

**5.6** Galwn felly ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Bwrdd Iaith i gydnabod Mentrau Iaith Cymru fel corff cydlynu cenedlaethol ac i roddi iddo'r adnoddau angenrheidiol i sefydlu swyddfa ganolog, penodi staff ychwanegol i weithredu ar draws nifer o feysydd arbenigol a hyrwyddo prosiectau blaengar a chyffrous ym maes cynllunio ieithyddol cymunedol.

**5.7** I'r mentrau iaith lleol weithredu fel canolfannau adnoddau a gwybodaeth dylid sicrhau bod ganddynt swyddfeydd addas a phwrpasol mewn lleoliadau cyfleus fyddai'n hwyluso mynediad iddynt gan y cyhoedd.

Dylid hefyd sicrhau bod gan y swyddfeydd hyn y cyfarpar a'r adnoddau angenrheidiol i gynorthwyo cymunedau lleol i gyfrannu mewn modd ymarferol tuag at y nod o hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg.

## 6.0 Sylwadau Clo

Cydnabyddir yn gyffredinol mai nid tasg ansylweddol yw gwyrdroi shifft ieithyddol.

I gychwyn y mae angen gweledigaeth yngl•n â'r math o Gymru ddwyieithog yr ydym am ei chreu i'r dyfodol ynghyd â strategaeth uchelgeisiol a blaengar i'w gwireddu. Y mae hefyd wrth gwrs angen arweiniad gwleidyddol deinamig a buddsoddiad ariannol sylweddol os ydym am gyrraedd at y nod.

Y cam cyntaf ar hyd y daith yw'r arolwg presennol gan Bwyllgor Iaith a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol. Drwy gael meddwl agored yngl•n â'r strwythurau mwyaf addas i atgyfnerthu'r Gymraeg a'r dewrder i wneud penderfyniadau radical, hyderir y bydd yr adroddiad yn cynnig ffordd ymlaen gynhyrfus i ni fel cenedl.

Dymunwn bob llwyddiant i chi fel Pwyllgor yn y gwaith o geisio diogelu dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg ac edrychwn ymlaen at weld yr argymhellion fydd yn deillio o'r ymgynghoriad allweddol hwn maes o law.

**Cefin Campbell**

**CADEIRYDD**

-